*These notes refer to the Mesur Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010 (c.2)*

# MESUR FFIOEDD GOFAL CYMDEITHASOL (CYMRU) 2010

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR ADRANNAU

***Adran 13* – Gwasanaethau y caniateir codi ffioedd amdanynt**

30. Mae'r adran hon yn pennu'r gwasanaethau y mae'r Mesur hwn yn gymwys iddynt a diffinnir y gwasanaethau hyn fel "gwasanaethau y caniateir codi ffi amdanynt". Y gwasanaethau hyn y caniateir codi ffi amdanynt yw'r gwasanaethau hynny a ddarperir o dan y deddfiadau a bennir yn is-adran (2). Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau lles i bersonau oedrannus a hyglwyf megis gofal cartref, canolfannau gofal dydd, golchi dillad, trafnidiaeth a phrydau bwyd. Cafodd gwasanaethau gofal preswyl eu heithrio o ystod y Gorchymyn galluogi Cymhwysedd Deddfwriaethol ac o'r herwydd cawsant eu heithrio o'r Mesur hwn.

31. Yn ddarostyngedig i gyfyngiadau mater 15.1 ym Maes 15 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae adran 13(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru drwy orchymyn i ychwanegu gwasanaeth at adran 13(2) neu ddiwygio neu ddileu'r disgrifiad o wasanaeth a gynhwysir ynddi am y tro. Mae adran 17(7) yn gwneud darpariaeth y bydd gorchymyn o'r fath yn gorfod dilyn y weithdrefn gadarnhaol.